

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWDYD O BELL DROS ZOOM

NOS LUN, Y 10FED O IONAWR 2022 AM 19.00 O'R GLOCH

Presennol: Cadeirydd: H Hughes
C Bainbridge
R Dalton
M Griffiths
J James
G B Jones
A J Morris A Thomas
Yn bresennol: Cyngorydd Sir: R P Quant
Clerc: M Walker
9 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU

254. Y Cyngorwyr D Pryce Jones a D Tweedy. Cadarnhaodd y Cyngorydd Rhydian Davies drwy lythyr ei fod yn ymddiswyddo o'r Cyngor o ganlyniad i alwadau gwaith a theulu.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

255. Daeth llawer o aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a chawsant gyfle i leisio'u barn a'u pryderon yn sgil Storm Barra a'r diffyg gwaith cynnal a chadw ar y banc cerrig mân, yn arbennig felly rhwng y creigiau lle mae'r cerrig mân bron â chyrraedd eiddo. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r ardal gyferbyn â siop Premier lle'r oedd y dŵr yn gorlifo ac yn achosi llyfogydd ar y ffordd ac i lawr tuag at Cambrian Terrace. Cynigiodd y Cadeirydd fod y Cyngor yn anfon llythyr at Gyngor Sir Ceredigion i godi'r pryderon hyn ac i nodi bod y Cyngor yn cefnogi'r Cyngorydd Ray Quant i'r carn ym mhopeth y mae wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud, o ran amddiffyn yr arfordir. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Bainbridge a phleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

DATGAN BUDDIANNAU

256. Atgoffwyd y Cyngorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

257. Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd o bell ar y 6ed o Ragfyr. Y cynigydd oedd y Cyng. Bainbridge a'r eilydd oedd y Cyng. Morris. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

MATERION YN CODI

258. Dim.

GOHEBIAETH

259. Un Llais Cymru.

Y newyddion diweddaraf am y Coronafeirws.

Mae'r cyrsiau gwaith "Defnydd" Preswyl yn dychwelyd yn 2022.

Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyhoeddiadau Polisi yng Nghynhadledd Genedlaethol Cymdeithas Prynu Gorfodol Cymru 2021.

Heddlu Dyfed Powys - Taflen Awgrymiadau Da ar gyfer Nadolig Seibr Hapus a Diogel.

Dyddiadau cau'r Nadolig.

Penodiadau i Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion.

Bil Deddfau Treth Cymru.

Rheoliadau Cymwysterau Clercod Cyngorau Cymuned Cymwys (Cymru) 2021.

Y cyllid sydd ar gael ar gyfer treftadaeth sy'n bwysig yn genedlaethol yng Nghymru a'r DU.

Llunio Dyfodol Cymru - Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol.

Llywodraeth Cymru Cydnabyddiaeth ariannol ac ymgysylltu â dinasyddion yng Nghymru – adroddiadau.

Cyngorau Tref a Chymuned – Llunio Dyfodol Cymru.

Sesiynau hyfforddi ym misoedd Ionawr, Chwefror a Mawrth 2022.

Cronfa Ymateb COVID-19 Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol.

Hysbyseb ar gyfer Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

Diweddariad mis Rhagfyr i'r canllaw sy'n ymwneud â chymryd rhan yn Fflaglau Jiwbilí Platinwm y Frenhines ar yr 2il o Fehefin 2022 a chân i'r Gymanwlad.

Pwyllgor Ardal Ceredigion, ddydd Mawrth, y 18fed o Ionawr 2022.

260. Llywodraeth Cymru.

Newyddion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bwletin Newid Hinsawdd Tachwedd 2021.

Newyddion COVID-19.

Ymgynghoriadau cyfredol.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref.

Y swm priodol yn unol â therfyn Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer 2022-23 yw £8.82 fesul etholwr.

261. Cyngor Sir Ceredigion.

Y newyddion diweddaraf am y Coronafeirws.

Bydd Ysgol Dyffryn Cledlyn yn cau dros dro am fod achosion o COVID-19 wedi'u cadarnhau yno.

Diwrnod i Hyrwyddo Hawliau'r Gymraeg.

Mae taith sain dywys yn adrodd straeon di-ri am orffennol lliwgar Aberystwyth.

Rhybudd llifogydd mewn grym yn y Borth ar 7/12/21.

Gwasanaeth casglu gwastraff Ceredigion y Nadolig hwn.

Llwyddiant Prosiect Peilot sy'n ymwneud â chefnogi iechyd meddwl yng Ngheredigion.

Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Cymuned y Borth i lanhau'r bloc toiledau rhwng mis Hydref a mis Mawrth.

Galwadau i beidio â gostwng y nifer o ambiwlansys.

Llythyr gan y Swyddog Canlyniadau er sylw'r Cyngor.

Penodiadau i Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion.

Un o drigolion Ceredigion ar y cledrau cywir yn ei rôl newydd.

Newyddion wythnosol.

Helpwch ni i ddiogelu'r holl wasanaethau cyhoeddus rheng flaen.

Mae Ysgolion Ceredigion yn symud i ddyddu o bell o ddydd Llun, yr 20fed o Ragfyr 2021.

Pecynnau Nadolig i hybu lles plant a phobl ifanc.

Ailagor ysgolion drwy gymryd camau gofalus.

Casgliadau gwastraff y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Cronfa grant fechan yn rhan o gynllun LEADER Cynnal y Cardi.

Mae'r gwaith ar gyfleusterau hamdden y cyngor bron â dod i ben.

Cynllun y ffordd ymlaen i Geredigion.

Chwilio am gynghorwyr o blith busnesau Ceredigion – Eich cyfle i gymryd rhan ym Margen Twf Canolbarth Cymru.

Bydd cymorth newydd i fusnesau y mae cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio arnynt ar gael yn 2022.

Cyfleoedd i gerdded, beicio a marchogaeth yng Ngheredigion.

Bydd ysgolion Ceredigion yn ailagor yn llawn ar y 10fed o Ionawr.

Manylion cyfarfod Zoom ar yr 31ain o Ionawr am Amddiffyn Arfordir y Borth - Diweddariad ar Gam 3.

Y wybodaeth ddiweddaraf am ailagor cyfleusterau hamdden y Cyngor.

Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE: atgoffwyd dinasyddion i newid o statws preswilydd cyn-sefydlog i statws preswilydd sefydlog pan fyddant yn gymwys.

262. Ecodyfi. Manylion Fforwm Blynyddol Ecodyfi a gynhaliwyd dros Zoom ar y 14eg o Ragfyr, a swydd wag gyda Biosffer Dyfi.

263. Bagiau tywod. Llythyr sy'n gofyn a allai'r Cyngor ystyried gwneud cais am gyllid i brynu bagiau a thywod er mwyn paratoi at stormydd/llifogydd, a'u dosbarthu ar yr adegau hynny. Cytunwyd i gael cyngor ar sut i helpu'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael o ran diogelu cartrefi.

264. Comisiwn Ffiniau Cymru. Mae'r sylwadau a ddaeth i law Comisiwn Ffiniau Cymru yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol bellach wedi'u cyhoeddi.

265. Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt yng Nghymru. Prosiect Afancod Cymru – Gweithdai Ymgynghori.

266. Menter Môn. Uchafbwyntiau Trefi SMART 2021.

267. Cynllun Argyfyngau. Gwybodaeth a chrynodeb y Borth ac Ynyslas ynglŷn â Storm Barra.

268. Ceisiadau am roddion ariannol. Y Tincer a Mynwent y Garn. Penderfynir ar y ceisiadau hyn yng nghyfarfod mis Mawrth ar y cyd â phob cais arall am roddion ariannol.

269. Heddlu Dyfed Powys. Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2021-2025.

270. Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thwrwm eu Clyw (yr RNID). Gweminar yr RNID a Gofalwyr Cymru ar Golli Clyw: Cefnogi Gofalwyr - ddydd Mercher, y 12fed o Ionawr.

271. Comisiwn Ffiniau Cymru. Bydd yr ail gyfnod ymgynghori yn cychwyn ar yr 17eg o Chwefror ac yn cau ar y 30ain o Fawrth.

272. Broceriaid Yswiriant Gallagher. Cais i wirio bod gan bob cyngor yswiriant digonol ac argymhelliad bod y Cyngor yn asesu costau yswiriant rheolaidd.

273. Cyngor Sir Ceredigion. Cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Cyngor Cymuned y Borth a Chyngor Sir Ceredigion i'w lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor sy'n ymwneud â glanhau toiledau'r traeth ger adeilad yr RNLI.

274. Llywodraeth Cymru. Manylion y cymwysterau y mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned feddu arnynt er mwyn bodloni un amod o blith tri i gyngor allu pasio penderfyniad i fod yn gyngor cymuned cymwys at ddibenion arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

275. Y Morglawdd yn Ynyslas. Llythyr gan un o drigolion Ynyslas sy'n poeni am y difrod a achoswyd gan y stormydd diweddar i'r morglawdd pren yn Ynyslas.

276. Cyngor Sir Ceredigion. Cau ffyrdd mewn argyfwng, Lôn Glan y Môr, ar gyfer gwaith atgyweirio gan BT, y 9fed i'r 10fed o Ionawr.

277. Trefi SMART. Prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru i roi cymorth i drefi yng Nghymru.

278. Bronheulyn. Mae e-bost gan Gyngor Sir Ceredigion yn nodi, yn ôl y Gofrestrfa Tir, nad yw'r tir wedi'i gofrestru. Hefyd, o safbwynt amddiffyn rhag llifogydd, ac fel y dywed Cyfoeth Naturiol Cymru, nid oes angen i'r Cyngor gyfrannu at waith cynnal y tir at y dibenion hynny.

CYFRIFON

279. Gweddill y Cyfrifon ar y 14eg o Ragfyr 2021

Nationwide	30229.71
Cyfrif Banc Elusennol	12591.94
Cyfrif Busnes Dim Rhybudd	18836.94
Cyfrif Adnau	3749.37

280. Incwm

Scottish Power – Fforddfreintiau	69.99
Cyfrif Adnau – llog hyd 2/12/21	0.09
Cyfrif Busnes Dim Rhybudd – llog hyd 2/12/21	0.47
Cyfrif Banc Elusennol – Rhent yr RNLI	500.00

281. Gwariant – Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol:

Tâl misol y Cyfrif Banc Elusennol	5.00
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - Cynllun Talu Wrth Ennill Hydref, Tachwedd a Rhagfyr	391.60
M Walker – cyflog £522.00, costau swyddfa £19.98	541.98
Heledd Davies – cyfieithu cofnodion mis Tachwedd a Rhagfyr	219.55
Eglwys Sant Mathew – cais am gyllid	5000.00

Y cynigydd oedd y Cyng. Bainbridge a'r eilydd oedd y Cyng. Griffiths. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

282. Archwiliad 2020/2021. Cwblhawyd yr archwiliad gan Archwilio Cymru. Cyhoeddwyd adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Cymuned y Borth ac ni chodwyd dim materion a oedd yn peri pryder.

Dyma faterion eraill sy'n codi ac argymhellion nad ydynt yn effeithio ar y farn archwilio, ond y dylai'r corff fynd i'r afael â hwy:

- Yn ôl Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, dim ond er mwyn ariannu gwariant a gynlluniwyd a lefel resymol o wariant nas rhagwelwyd y caiff y Cyngor osod praesept. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried ei gronfeydd wrth gefn wrth bennu'r praesept.
- Cariodd y Cyngor £58,139 drosodd ar yr 31ain o Fawrth 2021, o'i gymharu â'i braesept blynyddol o £21,870. Mae'r lefelau cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn gyson uchel ers o leiaf bum mlynedd, sef rhwng 2.5 a 3 gwaith ei braesept blynyddol.

- “Er mwyn sicrhau ei fod yn gosod praesept cyfreithlon, rydym yn argymhell bod y Cyngor yn adolygu ei gronfeydd wrth gefn ac yn manylu ar ei gynlluniau i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn wrth bennu ei gyllideb a'i braesept ar gyfer 2022-23”.

CYNLLUNIO

283. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.

A211072. Newid defnydd Canolfan Groeso wag i fflat sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Tŷ Pantyfedwen, y Borth. Canolfan Groeso, Cambrian Terrace, y Borth. Bydd Cyngor Cymuned y Borth yn cyflwyno'r sylwadau canlynol: “**Er bod y Cyngor yn croesawu llety sy'n addas i gadeiriau olwyn, credwn mai cyrff eraill fydd yn dod i benderfyniad ynghylch y datblygiad.**”

CYLLIDEB A PHRAESEPT

284. Dosbarthodd y Clerc y ffigurau gwariant a'r balans diweddaraf hyd at yr 31ain o Ragfyr 2021, ynghyd â'r cynllun ariannol ar gyfer 2022/23 a gyflwynodd ac a drafododd y Cynghorydd Quant mewn manylder. Penderfynwyd cymeradwyo'r gyllideb am y cyfnod ariannol 2022/23 fel a ganlyn:

Cyflog y Clerc	7990.00
Costau Swyddfa	200.00
Cronfa Arian Rhodd y Clerc	80.00
Yswiriant	1500.00
Lwfans y Cadeirydd	200.00
Cynnal a Chadw	4000.00
Cynnal a Chadw dros y Gaeaf	200.00
Amwynderau – Refeniw'r Neuadd	8000.00
Cyfleusterau Cymunedol a'r Celfyddydau	2400.00
Rhoddion	2500.00
Cymysg	640.00
Cronfa Wrth Gefn	1000.00
Ffi Archwilio	350.00
Cyfieithu	1200.00
Cadw'r toiledau wrth ymyl yr RNLI yn agored dros y gaeaf	4500.00
Ysgol Craig yr Wylfa	1000.00

Cyfanswm: £35760.00

285. Penderfynwyd cymeradwyo'r gyllideb a phennu'r praesept ar 55%, sy'n gyfystyr â £19668.00. Y cynigydd oedd y Cyng. Jones a'r eilydd oedd y Cyng. Morris. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Quant am ei gymorth wrth baratoi ffigurau'r gyllideb.

CAIS AM GYLLID ODDI WRTH EGLWYS SANT MATHEW

286. Datganodd y Cynghorydd Quant fuddiant a gadawodd y cyfarfod am ychydig. Ystyriwyd cais am gyllid grant o £5000 tuag at uwchraddio'r bloc toiledau presennol er mwyn i bobl anabl allu eu defnyddio. Cynigiodd y Cynghorydd Bryn Jones fod y Cyngor yn rhoi'r £5000. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Morris a phleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Y PARC CYCHOD

287. Trefnodd y Cynghorydd Hughes gyfarfod diweddar lle daeth Aelodau ynghyd i drafod y ffordd ymlaen. Bydd rhybuddion yn cael eu codi yn y parc cychod sy'n annog y rhai nad ydynt eisoes wedi gwneud hynny i gofrestru eu cychod ac i argymhell bod pob cwch yn cael ei yswirio.

CYFARFODYDD WYNEB YN WYNEB

288. Mae'r Cynghorydd Hughes wedi derbyn dyfynbris gan gwmni lleol i ddarparu offer i alluogi'r Cyngor i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn rhan o'r gwaith hwn, byddai'r cwmni yn darparu gwasanaeth cynnal a chadw parhaus i'r Cyngor. Cynigiodd y Cynghorydd Hughes ein bod yn derbyn y dyfynbris

am £1244 + TAW. Eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Jones a phleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Gofynnwyd i'r Clerc egluro a fyddai angen cyfleusterau cyfieithu.

ARWYDDION AR Y PROMENÂD

289. Gofynnwyd i'r Clerc archebu 2 faner newydd o Redesigns.

YR OLYGFAN AR Ffordd CLARACH

290. Mae'r mater yn parhau.

MATERION Y CADEIRYDD

291. Mae'r Cynghorydd Hughes wedi bod yn ymchwilio i offer a phrisiau ar gyfer campfa awyr agored yn y Borth. Soniwyd am broblem â'r goleuadau stryd ar y clogwyn. Diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r Cynghorydd Bainbridge am yr holl waith y mae wedi'i wneud i sicrhau cyllid i adfer y maes chwarae sydd, hyd yma, yn costio mwy na £45,000.

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR

292. Cadarnhaodd y Cynghorydd Bainbridge y bydd yr offer newydd ar gyfer y maes chwarae yn cyrraedd ganol mis Chwefror. Mae hi ar hyn o bryd yn ymchwilio i seddi newydd ar gyfer y fan hon. Dywedodd y Cynghorydd Bainbridge fod y ddau ddigwyddiad diweddar a gynhaliwyd yn Seren y Môr yn llwyddiannus iawn.

Mae'r Cynghorydd Dalton yn poeni y bydd angen rhoi'r meini copa yn ôl ar y wal gyferbyn â siop Premier yn sgil Storm Barra. Nid yw'r Cyngor wedi penderfynu sut orau i weithredu gan nad oedd y wal wedi gwneud dim i rwystro'r môr rhag gorlifo yn ystod y storm. Fodd bynnag, yn y cyfamser, awgrymwyd y gallai'r Cyngor ofyn i wardeiniaid y cynllun argyfyngau osod y meini copa yn daclus yn erbyn y morglawdd. Gofynnwyd i'r Clerc sôn wrth y cwmni yswiriant am y difrod. Mae'r trigolion yng nghyffiniau Bwthyn Bronheulyn yn parhau i bryderu bod y perchennog wedi symud rhan o'r wal derfyn yn y cefn.

Soniodd y Cynghorydd James am ddamwain ar y groesffordd yng Nghlarach yn ystod yr haf oherwydd bod ceir wedi'u parcio ar y palmentydd. Dywedodd y Cynghorydd Quant fod hwn yn fater y bydd angen i Gyngor Cymuned Tirymynach ddelio ag ef.

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

293. Rhoddodd y Cynghorydd Quant ddiweddariad ar y sefyllfa o ran COVID-19. Gofynnodd i lythyr Cyngor Cymuned y Borth at Gyngor Sir Ceredigion, sy'n mynegi pryderon y Cyngor yn dilyn Storm Barra, gael ei anfon o fewn yr wythnos.

Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA

294. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 9.35pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf a gynhelir nos Lun, y 7fed o Chwefror 2022, fydd Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, Arwyddion ar y Promenâd, yr Olygfan ar Ffordd Clarach a Chyfarfodydd Wyneb yn Wyneb. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Cyng. Hughes yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod.